Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Y Bwrdd Rheoli
# Management Board

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2012
## 10.00-11.00, Ystafell Gynadledda 4B

**Yn bresennol:**
**Claire Clancy (Prif Weithredwr a Chlerc) (Cadeirydd)**
**Adrian Crompton (Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad)**
**Non Gwilym (Pennaeth Cyfathrebu)**
**Virginia Hawkins (Pennaeth Dros Dro Pwyllgorau'r Cynulliad)**
**Steven O'Donoghue (Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad)**
**Mair Parry-Jones (Pennaeth y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi)**
**Mike Snook (Pennaeth Dros Dro Ystadau a Chyswllt Cyntaf)**
**Craig Stephenson (Pennaeth Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau)**
**Sian Wilkins (Pennaeth y Swyddfa Ddeddfwriaeth)**
**Anna Daniel (Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Siambr)**
**Dave Tosh (Cyfarwyddwr TGCh)**
**Elisabeth Jones (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol)**
**Glenys Llewelyn (Ysgrifenyddiaeth)**

**1.0 Cyflwyniadau ac ymddiheuriadau**

**1.1 Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau.**

**1.2 Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.**

**2.0 Cyfathrebu â staff**

**2.1 Cytunodd Dave Tosh i ddrafftio nodyn ar drafodaethau'r Bwrdd Rheoli ar gyfer y dudalen newyddion. Cytunwyd i ddychwelyd i'r arfer blaenorol o gyhoeddi'r nodyn cyfathrebu i staff a'r cofnodion ffurfiol ar wahân.**

**3.0 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2012**

**3.1 Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir.**

Y Brif Eitem

4.0 Rheoli Gwybodaeth a Diogelwch

Cyflwynodd Dave Tosh bapur a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd Rheoli am y cynnydd a wnaed a'r camau gweithredu sydd angen eu cymryd er mwyn gwella'r ffordd y rheolir gwybodaeth a diogelwch ar drwy'r sefydliad.

Penodwyd Alison Rutherford yn Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth, yn lle Bleddyn Preece, a bydd yn ymgymryd â'r rôl ym mis Ionawr.

Cynhaliwyd cyfarfodydd gydag Anne Jones, Comisiynydd Gwybodaeth Cynorthwyol Cymru, i drafod sut y gallai ei swyddfa roi cymorth ac arweiniad i'r Comisiwn wrth inni geisio gwella'r gwaith o reoli gwybodaeth. Mae Anne wedi cynnig gweithio i ni er mwyn cynnal seminarau i godi ymwybyddiaeth ynghylch y materion sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf Diogelu Data a Rheoli Gwybodaeth gydag Aelodau a staff cymorth Aelodau'r Cynulliad. Cytunodd Peter Black y byddai ei swyddfa etholaethol yn cynnal ymweliad fel y gellir pennu asesiad o arfer a dealltwriaeth.

Nodwyd bod Pwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad wedi croesawu'r cynnydd a wnaed o ran cyflwyno trefniadau newydd ar gyfer rheoli gwybodaeth a diogelwch. Fodd bynnag, roedd angen gwneud gwaith pellach er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r rolau, y cyfrifoldebau a'r camau gweithredu sydd eu hangen er mwyn gwella sicrwydd yn y maes gwaith hwn. Gofynnodd y Pwyllgor Archwilio i Gyfarwyddwr a Phennaeth y Gwasanaeth ddod i'r cyfarfod ym mis Ebrill 2013 i roi tystiolaeth o arferion a chynnydd.

Camau i'w cymryd:

- Bydd Dave Tosh yn llunio canllawiau i aelodau'r Bwrdd Rheoli a gytunodd yn flaenorol i fod yn Berchenogion Asedau Gwybodaeth.

- Aelodau'r Bwrdd Rheoli i ystyried cyfuno'r rôl arwain gwasanaeth gyda'r cyfrifoldeb dros reoli cofnodion.

- **Cytunwyd y byddai penaethiaid gwasanaeth sy'n cynrychioli adnoddau dynol, fetio a Phwyllgorau/Cyfathrebu/Deddfwriaeth (ar gyfer un gronfa ddata Busnes y Cynulliad) yn mynd i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio ym mis Ebrill 2013.**

**Eitemau byr.**

**5.0 Adroddiad misol ar reoli cyllid**

**Nodwyd bod hwn yn gyfnod pwysig o'r flwyddyn, gyda dim ond pedwar mis o'r flwyddyn ariannol yn weddill. Roedd yr holl ffigurau yn yr adroddiad yn seiliedig ar ragolygon a gyflwynwyd gan reolwyr. Nodwyd hefyd fod posibilrwydd y bydd angen Cyllideb Atodol mewn cysylltiad ag addasiadau cyfrifyddu ar gyfer darpariaethau pensiynau.**

**Nodwyd bod archwiliad cyntaf Cyllid a Thollau EM o gyfrif TAW y Comisiwn wedi cael ei gynnal.**

**Cadarnhaodd aelodau'r Bwrdd yr angen i Reolwyr Cyllidebau barhau â'u hadolygiad trylwyr o alldro rhagolygon gwasanaethau a phrosiectau. Dylid hysbysu'r adran gyllid ynghylch unrhyw risg y bydd alldro y rhagolygon yn newid ac unrhyw gynigion i ddefnyddio'r cronfeydd sydd ar gael.**

**6.0 Y wybodaeth ddiweddaraf am risgiau corfforaethol**

**6.1 Byddai papur yn cael ei gyflwyno i Gomisiwn y Cynulliad ar 17 Ionawr ar ddatblygu Cynulliad Ieuenctid.**

**6.2 Nodwyd bod Non Gwilym a Gareth Price yn bwrw ymlaen â'r gwaith ar y Cynllun Ieithoedd Swyddogol a'r cynllun gweithredu i ategu'r Ddeddf Ieithoedd Swyddogol. Bydd y rhain yn cael eu trafod cyn toriad y Pasg.**

**6.3 Cyfleuwyd y penderfyniad i beidio â pharhau â chontract Atos ar ôl 2014 i'r bobl berthnasol ac ni chafwyd unrhyw ymateb negyddol. Bydd Prosiect Gwasanaeth TGCh y Dyfodol bellach yn canolbwyntio ar drosglwyddo'r gwaith o reoli'r gwasanaeth yn ddidrafferth oddi wrth Atos. Bydd y gwaith pontio hwn yn ceisio sicrhau parhad y gwasanaeth a bod prosiectau newid sydd â blaenoriaeth uchel yn cael eu cyflawni. Er mwyn helpu gyda'r gwaith o gynllunio ar gyfer y gwaith hwn, dylid anfon**

**manylion am unrhyw gynlluniau ar gyfer prosiectau yn ymwneud â TGCh yn ystod y 12 mis nesaf at Dave Tosh er mwyn iddynt gael eu hystyried o fewn y trefniadau i reoli gwaith trosglwyddo.**

**Mae Mike Snook yn arwain ar y gwaith ar barhad busnes a bydd yn ymgysylltu â Phenaethiaid Gwasanaeth unigol ar ôl toriad y Nadolig i drafod cynlluniau Parhad Busnes, gyda'r nod o gwblhau hyn erbyn mis Gorffennaf 2013.**

## 7.0 Y Bwrdd Buddsoddi

**Nid oedd unrhyw faterion i'w hystyried. Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Llun 17 Rhagfyr.**